

Fy eithaf i'w oruchaf ef

“Yr wyf hefyd wedi prynu Ruth y Foabes yn wraig imi i gadw enw'r marw ar ei etifeddiaeth.” (adn. 10)

Beth am ddarlenn Ruth 4:9–12 ac yna myfyrio

Treuliwn ddiwrnod eto yn myfyrio ar ran Boas yn stori iachawdwriaeth Duw fel y caiff hi ei hadrodd yn Llyfr Ruth. Dyma ddyn â'i galon ar dân nid yn unig at gadw llythyren y ddeddf, ond i roi ei *oll* yn wasanaeth i eraill. Nid am wneud cyn lleied ag y gallai oedd yn ei boeni, ond yn hytrach, beth oedd y mwyaf y gallai ei wneud. Gallai arwyddair ei fywyd fod wedi bod (o fenthyg brawddeg hardd Oswald Chambers) *fy eithaf i i'w oruchaf ef*.

Mae thema prynedigaeth yn cael ei thanlinellu yn y stori hon gan fod Boas, nid yn unig yn gyfarwydd â gofynion un o hen ddeddfau Cyfraith Moses, ond fod ganddo hefyd galon ddigon hael i fynd y tu hwnt i'w gofynion. Soniwyd eisoes mai ystyr yr enw Boas yw “sylwedd” neu “nerth.” Defnyddia rhai pobl eu nerth a'u sylwedd er mwyn cynnal eu hunain yn unig, a hyn o bosibl ar draul rhywun arall. Y cwestiwn mae'n rhaid i bob un ohonom ei ateb heddiw yw hyn: I ba gyfeiriad y mae'r egni sy'n gyrru ein personoliaethau ni yn cael ei gyfeirio – atom ein hunain nteu at eraill?

Mae rhai Cristnogion yn ystyried mai nhw bia'r hawl ar eu cyfoeth, heb ystyried fyth y ffaith fod cyfrifoldebau yn dod yn sgil y breintiau a gawn. Dw i'n hoff o beth ddywedodd un esboniwr am Boas: “Pan benderfynodd ymddwyn fel hyn (yn hael yn hytrach na chadw llythyren y ddeddf yn unig), fe deimlir ‘adain’ Duw (2:12–13) yn y stori drwy ‘adain’ Boas (3:9).” Maddeuwch imi ailadrodd: mae disgwyl mwy gennym na chadw at lythyren y ddeddf. Mae disgwyl i ni fynd yr ail filltir. Ac os faddeuwch hefyd y newid idiom yma, pan ddaw yr Ysbryd Glân i breswyllo ynom ni, nid diferion neu lif bychan a ddisgwylir i lifo allan o ddyfnder ein bod ond, yn hytrach, ffrydiau o ddyfroedd byw. *Ffrydiau!*

Beth am fynd ymlaen i ddarlenn:

Luc 6:38;

Ioan 4:13–14; 7:37–39

Meddyliwch am y cwestiynau hyn:

1. Sut rydyn ni'n penderfynu ar ba lefel yr ydym yn derbyn?
2. Pa amod sy'n dal i fodoli er mwyn i'r Ysbryd gael ei roi?

Gweddi

Dad nefol cariadus, bydded i'r hyn rwyt ti'n ei dywallt i mi hefyd lifo allan ohonof. Nid wyt ti yn grintachlyd yn dy roi i mi; helpa finnau i beidio â bod yn grintachlyd yn yr hyn yr wyf yn ei roi i eraill. Rwy'n gofyn yn enw Iesu. Amen.